| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Cynllunio** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22 Hydref 2014** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Y Cyng. David Smith, Parth Cyhoeddus** |
| | **Angela Loftus, Rheolwr Cynllun Datblygu a Pholisi** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Kirsty Henderson, Swyddog Prosiect Cadwraeth** |
| **Teitl:** | **Canllawiau Cynllunio Atodol Adeiladau Rhestredig – Drafft Ymgynghori** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â'r ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol drafft (CCA) ar adeiladau rhestredig a fydd, o'i fabwysiadu, yn cael eu defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau Cydsyniad Adeilad Rhestredig a cheisiadau cynllunio sy'n effeithio ar leoliad adeiladau rhestredig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Ar ôl mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Ddinbych, a diweddariad y canllawiau cenedlaethol, mae angen CCA wedi'i ddiweddaru ar adeiladau rhestredig er mwyn cynnig arweiniad pellach i ddatblygwyr, Swyddogion ac Aelodau. Mae CCA drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ynghlwm i'r adroddiad hwn (Atodiad 1).

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau'n cytuno ar y CCA drafft ar adeiladau rhestredig fel sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

## 4. Manylion am yr adroddiad

4.1. Ar ôl mabwysiadu'r CDLl ar 4 Mehefin 2013, cytunodd y Cyngor i ddwyn ymlaen y gyfres bresennol o CCA, gan gynnwys CCA 14 – Adeiladau Rhestredig. Mae adeiladau rhestredig wedi'u rhestru oherwydd eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae diogelu'r adeiladau hyn yn cynnwys unrhyw iardiau adeiladau neu strwythurau, a'u lleoliad ehangach. Mae canllawiau cenedlaethol wedi'u diweddaru ers mabwysiadu'r CCA gwreiddiol (yn 2003), yn bennaf dogfen bolisi Cadw *Egwyddorion, Polisïau a Chanllawiau Cadwraeth ar gyfer Rheolaeth Gynaliadwy'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru* a gyhoeddwyd yn 2011 a TAN 12 – Dylunio (2014). Mae English Heritage wedi cynhyrchu canllaw hefyd *The Setting of Heritage Assets* (2011). Dylid nodi bod dogfen English Heritage yn berthnasol i Loegr yn unig a bydd rhai o'r rheolau a rheoliadau'n wahanol yng Nghymru ond mae'n cynnwys egwyddorion i'w hystyried sy'n rhai cyffredinol ar gyfer adeiladau rhestredig. Mae gwahaniaethau hefyd rhwng y Cynllun Datblygu

Unedig blaenorol a pholisïau'r CDLl, allai gael effaith ar geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig a strwythurau, ynghyd â'u lleoliad.

4.2 Mae'r Llysoedd wedi derbyn nad oes gofyniad statudol i ystyried darpariaethau'r cynllun datblygu lleol ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig, ac nid yw Adran 54A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a ddisodlwyd gan Adran 38 (6) o Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004) yn berthnasol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol cynhyrchu CCA wedi'i ddiweddaru ar y testun hwn. Os caiff ei fabwysiadu, bydd y CCA yn ystyriaeth cynllunio perthnasol wrth asesu ceisiadau cydsyniad adeilad rhestredig a cheisiadau cynllunio sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig a'u lleoliad.

4.3. Mae gan Gyngor Sir Ddinbych dros 1800 o adeiladau rhestredig. Maent yn bodoli yng nghanol trefi ac ardaloedd gwledig ac mae math a natur pob adeilad rhestredig a'r rheswm dros eu rhestru yn wahanol. Bydd darparu canllawiau positif ac eglur ynglŷn â'r newidiadau a defnyddiau arfaethedig adeiladau rhestredig mewn CCA yn ategu at bolisïau CDLl lleol ynglŷn â pharchu nodweddion unigryw, datblygu cynaliadwy, hybu economi gynaliadwy a gwerthfawrogi ein hamgylchedd.

4.3. Byddai'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn para o leiaf 8 wythnos a disgwylir iddo ddechrau yng nghanol mis Tachwedd 2014. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio gyda CCA terfynol i'w fabwysiadu.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r CCA yn darparu canllawiau ar adeiladau rhestredig a beth i'w gyflwyno ar gyfer cais cydsyniad adeilad rhestredig. Mae rheolaeth bositif adeiladau rhestredig a gyflwynir yn y broses gynllunio'n gysylltiedig â dau bolisi corfforaethol - 'Datblygu'r economi leol' a 'Strydoedd glân a thaclus'.

5.2 Mae lleoliad ffisegol a nifer yr adeiladau rhestredig mewn trefi megis Dinbych (235); Llangollen (224); y Rhyl (101) a Rhuthun (212), a Chorwen (79) yn ystyriaeth allweddol er mwyn sicrhau bod adeiladau rhestredig yn cael eu haddasu neu eu newid mewn modd positif, gan gadw eu cymeriad sy'n golygu bod trefi ac ardaloedd gwledig Sir Ddinbych yn unigryw. Mae rheoli'r adeiladau hyn yn briodol yn berthnasol yn uniongyrchol i Flaenoriaethau Corfforaethol - 'Strydoedd Glân a Thaclus' a 'Datblygu'r Economi Leol'. Mae 'Strydoedd Glân a Thaclus' yn nodi bod –"Sir Ddinbych yn elwa o dirwedd ddeniadol a chroesawgar, ynghyd ag amrywiaeth o drefi a phentrefi hanesyddol a diwylliannol. Mae ansawdd y gofod cyhoeddus hwn yn allweddol i annog pobl i symud i'r sir, ynghyd â denu twristiaid sy'n cynorthwyo i gefnogi'r economi leol".

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd unrhyw gost sy'n gysylltiedig â chytuno ar CCA i'w ymgynghori yn cael ei gynnwys yn y cyllidebau cyfredol a ni fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i’r adroddiad hwn.**

7.1 Ni chredir fod angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y penderfyniad hwn. Mae egwyddorion rheoli adeiladau rhestredig yn briodol yn ddeddfwriaeth genedlaethol, ac yn cael ei gefnogi drwy fabwysiadu’r CDLl. Mae'r CCA yn rhoi arweiniad pellach ar hyn. Cynhaliwyd asesiad llawn o effaith y CDLl ar gydraddoldeb ym mis Mai 2011.

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1 Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol, ond cafwyd ymgynghoriad anffurfiol gyda swyddogion y Tîm Rheoli Datblygu.

8.2 Mae safbwynt yr Aelodau ynglŷn â chynnwys y CCA wedi’i ddarparu drwy Grŵp Llywio CDLl yr Aelodau hefyd.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dylai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r canllawiau fod wedi eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg yn yr adroddiad.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Heb ganllawiau cyfredol, mae perygl na fyddai’r Cyngor yn gallu gweithredu polisïau’r CDLl yn effeithiol. Mae CCA adeiladau rhestredig yn darparu canllaw clir a chryno yn seiliedig ar bolisi cenedlaethol wedi’i ddiweddaru. Bydd cyflwyno gwybodaeth ar gyfer ceisiadau i gael cydsyniad adeilad rhestredig a cheisiadau cynllunio sy’n effeithio ar adeiladau rhestredig a’u lleoliad yn gwella‘r broses o lunio penderfyniadau o ran cyflymder ac ansawdd canlyniadau.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

11.2 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).